

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.10 Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd



Ar 1 Rhagfyr 2012 fe wnaeth y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) uno i ffurfio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). O'r herwydd mae 'gwiriadau CRB' nawr yn cael eu galw yn 'wiriadau GDG' a chaiff rhestrau unigolion gwaharddedig ISA yn awr eu galw yn rhestrau unigolion gwaharddedig GDG.

Proses o gasglu gwybodaeth am gofnod troseddol unigolyn yw gwiriad o gofnodion troseddol ac mae'n cynnwys euogfarnau sydd wedi darfod ac sydd heb ddarfod, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol a ddelir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Mae'n ofynnol i staff a gwirfoddolwyr llawer o fudiadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg gael gwiriad gan y GDG o'u cofnod troseddol.

Defnyddio gwiriadau cofnodion troseddol i recriwtio'n ddiogelach

Ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi neu swyddi gwirfoddol ni chaniateir i gyflogwr wybod am gofnod troseddol unigolyn heblaw am yr euogfarnau hynny yr ystyrir eu bod 'heb ddarfod'. Mae'r rhan fwyaf o rhybuddion ac euogfarnau yn 'darfod' yn y pendraw ar ôl i amser penodol (a elwir yn gyfnod adsefydlu) fynd heibio. Mae rhai dedfrydau nad ydynt byth yn darfod megis dedfryd o garchar am dros 4 blynedd.

Er hynny, gyda swyddi sy'n golygu gweithio gyda grwpiau agored i niwed gall mudiad ofyn am wiriad o gofnodion troseddol. **Ceir 3 math o wiriad.**

1. Gwiriad GDG safonol

Ceir rhai proffesiynau a rolau swyddi lle gall cyflogwr ofyn am weld cofnod troseddol llawn unigolion. Gelwir y rhain yn swyddi eithriedig ac fe'u rhestrir dan Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Bydd datgeliad safonol yn dangos yr holl wybodaeth am gofnodion troseddol a ddelir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu; euogfarnau, rhybuddion, ceryddon, rhybuddion terfynol wedi darfod (sydd ddim yn rhai gwarchodedig) a heb ddarfod.

2. Gwiriad GDG manwl

Mae rhai mathau penodol o waith, yn enwedig y rheini sy'n golygu gweithio gyda phlant ac oedolion, yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ar yr adeg honno, sy'n gymwys am wiriadau o gofnodion troseddol ar y lefel uchaf; gelwir hwn yn wiriad manwl. Rhaid i'r swyddi hyn gael eu dynodi yng Ngorchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 **ac** yn y rheoliadau a wnaed dan Ddeddf yr Heddlu 1997.

Mae datgeliad manwl yn cynnwys yr holl wybodaeth ar gofnod troseddol a ddelir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fel uchod a hefyd wybodaeth arall heblaw am euogfarnau y mae'r heddlu'n credu ei bod yn rhesymol berthnasol ei datgelu ar gyfer y swydd.

3. Gwiriad GDG manwl gydag archwiliad o'r Rhestr(au) gwahardd – Gweithgareddau a reoleiddir

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn datgan y gweithgareddau a'r gwaith y mae'n rhaid i unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda grŵp agored i niwed penodol, plant a/neu oedolion, beidio â'u gwneud. Gelwir hyn yn weithgaredd a reoleiddir.

Fe wnaeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddiwygio'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir i ganolbwyntio ar waith sy'n cynnwys cysylltiad agos a heb oruchwyliaeth gyda grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant. Daeth y diffiniad newydd i rym ym Medi 2012.

Rhaid i gyflogwyr sydd eisiau cyflogi neu ddefnyddio unigolyn ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir beidio â chyflogi unigolyn gwaharddedig yn fwriadol a gall ofyn am wiriad GDG manwl gan gynnwys archwiliad yn erbyn y rhestr wahardd berthnasol gan GDG (rhestr plant a/neu oedolion). Bydd yr archwiliad hwn o'r rhestr wahardd yn dangos a yw'r sawl wedi'i gynnwys ar y rhestr GDG berthnasol ai peidio.

Cost Gwiriadau GDG

Mae gwiriadau GDG ar gyfer gwirfoddolwyr yn rhad ac am ddim. Caiff gwirfoddolwr at ddibenion GDG ei ddiffinio fel *'unigolyn sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd sy'n golygu treulio amser yn ddigyflog (ac eithrio costau teithio a mân dreuliau cymeradwy eraill), yn gwneud rhywbeth sydd â'r nod o roi budd i rywun (unigolion neu grwpiau) heblaw am, neu yn ogystal â, pherthnasau agos'*

Dyma ffioedd y GDG ar gyfer gweithwyr cyflogedig

- Gwiriad safonol £26
- Gwiriad manwl gyda neu heb archwiliad(au) o'r rhestr wahardd £44

Defnyddio gwiriadau GDG

Ni allwch ond defnyddio gwiriadau GDG drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hynny drwy gyfrwng Cyrff Cofrestredig. Ni all unigolyn wneud gwiriad cofnodion troseddol arno ef/hi ei hun.

Gall sefydliad sy'n defnyddio gwiriadau GDG wneud cais i'r GDG i fod yn Gorff Cofrestredig. Er hynny, mae amodau penodol y mae angen eu bodloni a bydd llawer o sefydliadau o bosib yn ystyried hyn yn amhriodol iddynt hwy neu efallai na fyddant yn gallu bodloni'r meini prawf. Neu, gall sefydliad ddefnyddio gwasanaethau un o Gyrrff Cofrestredig Ymbarél y GDG sy'n gweithredu ar ran sefydliadau eraill ond byddant fel arfer yn codi ffi weinyddol yn ogystal â chost y GDG am wiriad.

Gall mudiadau trydydd sector gael at wiriadau GDG ar gyfer staff a gwirfoddolwyr drwy wasanaethau corff cofrestredig. Yn y gorffennol gwasanaethwyd y sector gan Uned Cofnodion Troseddol WCVA, a oedd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth mynediad am ddim. Bwriad Llywodraeth Cymru nawr yw ailganolbwyntio cyllid i ddarparu cymorth diogelu ehangach nad yw'n benodol i fynediad at wiriadau GDG.

Mae WCVA wedi llunio rhestr o gyflenwyr a argymhellir i fudiadau trydydd sector yng Nghymru. Mae'r rhestr yn nodi Cyrff Cofrestredig Ymbarél y GDG sy'n cyd-fynd mor agos â phosib â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Uned Cofnodion Troseddol WCVA. Gwasanaethau masnachol yw'r rhain a chodir ffi weinyddol fesul cais a brosesir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma <http://www.wcva-safeguarding.org.uk/Y-GDG-a-recrwtio-diogel>

Gwirio ai peidio

Ni ellir ond gofyn am wiriad GDG os bodlonir yr amodau cymhwys ac ni ellir ei gynnal ar unrhyw un dan 16 oed: Mae'n drosedd fel arall.

www.gov.uk/government/publications/dbs-check-eligible-positions-guidance

Gall penderfyniadau ynglŷn â phwy sy'n gymwys fod yn eithaf cymhleth ac mae mudiadau gwirfoddol yn aml dan bwysau oddi wrth gyrff ariannu neu yswirwyr i gynnal gwiriadau 'cynhwysfawr' ar bob gwirfoddolwr neu staff pan nad ydynt yn gymwys. Mae'n bwysig felly nad yw gwiriadau GDG yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain ond yn hytrach fel rhan o broses ddiogelu ehangach a'u bod yn cael eu gwneud gan gorff cofrestredig profiadol sy'n gallu cefnogi'r penderfyniad o safbwynt cymhwys.

Gellir defnyddio gwiriadau GDG fel yr arfer gorau neu gallant fod yn orfodol os ceir deddfwriaeth arall sy'n mynnu archwiliad yn erbyn rhestr wahardd e.e. swyddi gofal dydd plant a reoleiddir (a arolygir). Er hynny, disgwylir y bydd dyletswydd statudol wedi'i sefydlu erbyn 2014/15 i archwilio yn erbyn y rhestrau gwahardd ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Mae'r gwaith a'r gweithgareddau hynny nad ydynt mwyach yn bodloni'r diffiniad diwygiedig o weithgaredd a reoleiddir (e.e. rhai gweithgareddau a wneir gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth) yn gymwys o hyd am wiriadau GDG manwl ond nid ydynt yn gymwys am archwiliadau yn erbyn y rhestrau gwahardd fel rhan o'r cais hwnnw.

Dyletswydd i gyfeirio

Ceir dyletswydd gyfreithiol i gyfeirio os yw cyflogwr neu sefydliad yn credu bod unigolyn sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir wedi achosi niwed neu'n peri risg o niwed yn y dyfodol i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant.

Dylid gwneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ac mae gwybodaeth bellach i'w chael yn Arweiniad Cyfeirio'r GDG.

www.gov.uk/government/publications/dbs-referrals-form-and-guidance

Newidiadau diweddar yn y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd

Tystysgrif Un Cyhoeddiad Mae'r GDG bellach yn darparu un dystysgrif GDG yn unig sy'n mynd at yr ymgeisydd yn uniongyrchol. Bydd angen i fudiadau ofyn i weld y dystysgrif hon er mwyn asesu addasrwydd.

Bydd sefydliadau yn gallu defnyddio system olrhain arlein GDG i wybod pryd fydd y gwiriad wedi'i gwblhau ac yna gwneud trefniadau i weld tystysgrif yr ymgeisydd, wrth gadarnhau ID ar yr un pryd, archwilio'r dystysgrif i sicrhau ei bod yn ddilys a gwneud asesiad risg o unrhyw wybodaeth a ddatgelir.

Er y dylai'r broses recriwtio ar adeg yr hysbysebu a'r cyfweiliadau fod wedi amlygu'r angen i'r gwirfoddolwr neu'r aelod o staff cyflogedig ddatgelu unrhyw gofnod troseddol perthnasol, mae hyn yn rhoi cyfle pellach i drafod unrhyw gynnwys ar y dystysgrif. Ni ddylai staff a gwirfoddolwyr newydd sy'n mynd i weithgaredd a reoleiddir ddechrau ar eu rôl hyd nes y mae'r archwiliadau o'r rhestrau gwahardd priodol wedi'u cynnal a'u cadarnhau gan y sefydliad.

Does gan wiriad GDG ddim dyddiad darfod swyddogol. Bydd unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn gywir ar yr adeg y cynhaliwyd y gwiriad. Penderfyniad y cyflogwr yw a oes angen gwiriad newydd a phryd, ond gellir gwneud hyn yn llawer haws drwy ddefnyddio gwasanaeth Diweddarau GDG.

Y Gwasanaeth Diweddarau Mae gwasanaeth Diweddarau GDG yn gwneud tystysgrifau'n fwy "cludadwy" gan y gellir cadw tystysgrif GDG yn gyfredol a'i chymryd o rôl i rôl, o fewn yr un gweithlu, pan fo angen yr un fath a'r un lefel o wiriad.

Gall unigolyn danysgrifio i ymuno â'r gwasanaeth Diweddarau a gall cyflogwr, gyda chaniatâd yr ymgeisydd, wneud gwiriad statws arlein am ddim ar wefan GDG i weld a yw tystysgrif ymgeisydd yn dal i fod yn gyfredol, hynny yw, does dim gwybodaeth newydd wedi'i hychwanegu ers ei chyflwyno. Ni fydd angen cynnal gwiriad newydd ond os yw statws y dystysgrif wedi newid a rhoddir tystysgrif newydd gyda'r wybodaeth arni wedi'i diweddarau.

Mae'n costio £13 y flwyddyn i staff cyflogedig danysgrifio i'r gwasanaeth Diogelu, ond am ddim i wirfoddolwyr. I gael rhagor o wybodaeth ac ymuno â'r gwasanaeth diweddarau ewch i www.gov.uk/dbs-update-service.

Fodd bynnag, rhaid defnyddio'r meini prawf cymhwyso o hyd a chymryd gofal i sicrhau bod y dystysgrif sy'n cael ei diweddarau yn briodol i'w defnyddio ar gyfer unrhyw rôl newydd; yn benodol, ar gyfer gweithio gyda'r gweithlu priodol fel plant a/neu oedolion neu a oedd y dystysgrif wedi'i chyflwyno'n wreiddiol ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir ac yn cynnwys archwiliad yn erbyn y rhestr wahardd.

Adsefydlu Troseddwyr

Er mai diben GDG yw helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel a rhwystro pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant, mae hefyd yn bwysig bod unrhyw un sydd â chofnod troseddol yn cael eu trin yn deg ac na wahaniaethir yn eu herbyn oherwydd euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir.

Datgelu gwybodaeth am gofnod troseddol

Ers Mai 2013, mae peth gwybodaeth o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn cael ei hidlo ac ni fydd yn ymddangos ar y dystysgrif, hynny yw, nid yw rhai rhybuddion ac euogfarnau hen a bach bellach yn cael eu datgelu o dan Orchymyn Eithriadau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr. Ni all cyflogwyr ystyried y rhybuddion a'r euogfarnau hen a bach hyn wrth wneud penderfyniadau am unrhyw unigolyn. Serch hynny, ceir troseddau difrifol amrywiol gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i swyddi sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, na fydd byth yn cael eu hidlo.

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance>

Bydd angen i ffurflenni cais swyddi adlewyrchu'r newidiadau hidlo fel bod a) cyflogwyr yn gofyn y cwestiynau cywir a b) bod aelodau o staff yn rhoi'r ateb cywir (sy'n gyfreithiol gywir) ac anogir cyflogwyr i gynnwys y paragraff isod yn eu ffurflenni cais safonol.

“Mae'r diwygiadau yng Ngorchymyn Eithriadau 1975 (2013) yn golygu bod rhai euogfarnau a rhybuddion sydd wedi dar fod yn 'warchoddedig' ac nad ydynt yn destun datgelu i gyflogwyr, ac ni ellir eu hystyried”

Hefyd wrth recriwtio (staff cyflogedig neu wirfoddolwyr), cynghorir cyflogwyr i ofyn;

“A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon neu rybuddiadau terfynol nad ydynt yn rhai “gwarchoddedig” fel y'u diffinnir gan Orchymyn (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974”

Dylid cynnal asesiad risg o unrhyw wybodaeth am droseddau a'i thrafod gyda'r gwirfoddolwr (neu aelod o staff). Mae hefyd yn ofynnol bod sefydliadau sy'n defnyddio gwiriadau GDG yn dilyn y Cod Ymarfer sy'n cynnwys sefydlu datganiad polisi ar gyfer recriwtio cyn droseddwyr. Mae polisi enghreifftiol wedi'i gynnwys gyda'r ddalen wybodaeth hon.

Gwybodaeth bellach

Mae'r [Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yn ei gwneud yn ofynnol (Dangosydd 6.8) bod mudiadau yn ystyried canllawiau perthnasol y Llywodraeth a'r rolau y bydd gwirfoddolwyr yn cael eu rhoi ynddynt wrth ddefnyddio gwiriadau swyddogol a (Dangosydd 6.9) bod y mudiad wedi ystyried pa fathau o euogfarn/camau disgyblu sy'n berthnasol ac yn amherthnasol i'r rôl wirfoddol.

Gwasanaeth Diogelu Trydydd Sector

www.wcva-safeguarding.org.uk/Hafan

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

Gellir lawrlwytho [polisiâu enghreifftiol yma ar ddiogelu \(gan gynnwys defnyddio gwiriadau GDG\) a recriwtio cyn-droseddwyr](#) a'u haddasu i'ch dibenion chi

Ymwadiad

Bwriedir y wybodaeth yn y ddalen hon fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio yn lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn dim cyfrifoldeb am golled a geir o ganlyniad i'r ffaith bod unrhyw unigolyn yn gweithredu ar y wybodaeth hon neu'n peidio â gweithredu arni.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau:31/01/2017



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk